**Cyngor Tref TREGARON Town Council**

Clerc/*Clerk*: Fflur Lawlor
E-bost/*E-mail*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk

**Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron / *Tregaron Town Council Meeting***
**Nos Lun / *Monday* 21.02.2022**

7.00yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / *Memorial Hall*

**COFNODION MIS CHWEFROR / *FEBRUARY MEETING MINUTES***

| | Eitem / *Item* | Gweithred / *Action* |
|---|---|---|
| 1. | **CROESO / WELCOME**<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod misol y Cyngor.<br><br>*The Chairman welcomed all members present, to the monthly meeting.*<br><br>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/*Cllr* Catherine Hughes (Cadeirydd/*Chair*), Cyng/*Cllr* Arwel Jones, Evan Jones, June Owens, Ann Jones, Rhydian Wilson & Owain Pugh<br><br>PC John Evans – tan agenda eitem 5 / *up until agenda item 5*<br><br>Clerc / *Clerk* – Fflur Lawlor | |
| 2. | **CYFLWYNIAD / PRESENTATION -**<br>Neil Stoddart, Cyfoeth Naturiol Cymru / *National Resource Wales*<br><br>Mynychodd Neil Stoddart y cyfarfod i siarad am y posibiliadau o gyd weithio gyda'r Cyngor Tref ar wahanol brosiectau yn yr ardal.<br><br>*Neil Stoddart attended the meeting to speak about the possibilities of joint working with the Town Council on different projects within the area.* | |
| 3. | **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES**<br>Cyng/*Cllr* Rhian Jones & Cyng/*Cllr* Laura Sherman | |
| 4. | **MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS**<br>Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.* | |
| 5. | **ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT**<br>Roedd PC John Evans yn bresennol yn y cyfarfod – adroddwyd 2 gofnod o ddifrod troseddol a 1 adrodd o ddwyn yn ystod y mis diwethaf.<br><br>*PC John Evans was present at the meeting – 2 records of criminal damage and 1 record of theft had been reported in the last month.* | |
| 6. | **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**<br>Cyng. Catherine Hughes yn datgan diddordeb yn y pwnc Cynllunio.<br>*Cllr Catherine Hughes declaring an interest in the subject of Planning.* | |
| 7. | **CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 17.01.22**<br>Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir.<br>*It was agreed that this was a true record of the minutes.* | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Evan Jones<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* June Owens | |
| 8. | **MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES**<br>Tudalen / *Page* 2 –<br>18.1 –<br>Heulwen Bulman wedi cytuno gadw ymlaen i wneud y PAYE am y flwyddyn nesaf eto.<br>*Heulwen Bulman has agreed to keep doing the PAYE for another year.*<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Owain Pugh<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Evan Jones<br><br>Tudalen / *Page* 3 –<br>8.4 –<br>£500 wedi ei symud i gyfri y Cadeirydd / *£500 transfered to the Chairman account*<br><br>Tudalen / *Page* 4 –<br>9 –<br>Mae'r Cyng Owain Pugh wedi gwneud rhai atgyweiriadau i'r ffrâm gweithgaredd. Peth gwaith i'w wneud eto. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod y misoedd nesaf. Diolchwyd i'r Cyng Owain Pugh am ei waith gan y Cadeirydd.<br><br>*Cllr Owain Pugh has made some repairs to the activity frame. Some work still to be done. The work will be done in the next few months. Cllr Owain Pugh was thanked for his work by the Chair.*<br><br>Tudalen / *Page* 6 –<br>19.1 –<br>Cadeirydd wedi siarad a'r perchnogion am y coed.<br>*The Chair has spoken to the owners about the trees*.<br>19.1 –<br>Clerc wedi cysylltu â CCC i ofyn am dorri porfa y cae chwarae<br>*Clerk has contacted CCC to ask about cutting the grass in the playing field*<br>19.2 –<br>Clerc wedi cysylltu â CCC am y biniau grit<br>*Clerk has contact CCC about the grit bins*<br>19.4 –<br>Golau tu allan i'r Neuadd Goffa – bydd yn cael ei wneud, dibynnu pryd mae cyllid ar gael.<br>*Lights outside the Memorial Hall – they will be fixed, depends when funds are available.* | |
| 9. | **CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS**<br>9.1 – Balans y Banc / Bank Balance –<br>• Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current – £42,334.14<br>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve – £11,922.25<br>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Current (Cadeirydd / *Chairman*) – £3,564.90<br>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve (*Gratuity*) – £210.13<br><br>9.2 Taliadau Mis Chwefror / February payments –<br>• Cyflog y Gweithiwr Strydlun (Ionawr) *Street Scene Worker Salary (January)* £208.80<br>• Cyflog y Clerc (Ionawr) / *Clerk's Salary (January)* £216.00<br>• HMRC NIC/TAX Mis Ionawr / *Month* of Ionawr £106.20<br>• Gareth Jones (Archwiliad / Audit 2020/21) £50.00<br>• L & G Forestry Ltd (Coed Nadolig / Christmas Trees) £336.00<br>• Zurich (Yswiriant / *Insurance renewal* 2022/23) £1,333.44 | Clerc / *Clerk* |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li>CCC – Cau y Sgawr – Golau Nadolig 2021 / Close the Square – Christmas Lights 2021 £46.50</li>
<li>Redlynch (Wet pour Parc Chwarae / Playing Park) £17,496.00</li>
<li>Glasdon (Bin baw cŵn / Dog Waste bin) £308.90</li>
<li>Pugh Computers Ltd – Microsoft 365 Business Standard £135.36</li>
<li>(Dyfynbris / Quote) Promultis – 10GB y mis Bwrdd Digidiol / Monthly date Digital Board £300.00</li>
</ul>
Diolchodd y Cyng Evan Jones i'r Clerc a phawb a fu'n ymwneud â rhoi'r ceisiadau grant at eu gilydd ar gyfer y Parc.
Cllr Evan Jones thanked the Clerk and everyone involved in putting the grant applications together for the Park.
Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Rhydian Wilson<br>Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Evan Jones
</td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>10.</td>
<td>
ADRODDIAD YR IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORT<br><u>Is-bwyllgor Parc / Blodau</u><br>Gwiriadau misol Iechyd a Diogelwch y Parc i barhau dros y gaeaf - bydd y Cyng June Owens yn cynnal y gwiriadau y mis hwn - Clerc i e-bostio pawb gyda'r ffurflen. Diolchwyd i Cyng Rhian Jones am wneud mis diwethaf.
Mae'r Cyng. Owain Pugh wedi gwneud rhai atgyweiriadau i'r ffrâm gweithgaredd. Peth gwaith i'w wneud eto. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod y misoedd nesaf. Diolchwyd i'r Cyng. Owain Pugh am ei waith gan y Cadeirydd.
Dyfynbris o £800 wedi ei dderbyn gan Deian Rees am beintio’r offer yn y parc – pawb yn gytûn. Gall Deian ddechrau'r gwaith ar Ebrill 4ydd, bydd angen cau'r parc am 1 wythnos.
Mae Tîm Cyfathrebu Cyngor Sir Ceredigion wedi cysylltu â’r Clerc i ofyn am luniau o’r dref ar gyfer eu datganiad i’r wasg dydd Gŵyl Dewi – mae Canolfan Arddio Robert wedi darparu pot o gennin Pedr a gofynnwyd i Dafydd Wyn Morgan dynnu lluniau.
Tendr torri gwair a dyfrio/bwydo blodau i'w baratoi gan y Clerc.
Cytunwyd i ofyn am 6 pot blodau du ychwanegol ar gyfer eleni ac iddynt gael eu lleoli mewn rhannau eraill o'r dref. Cyng Catherine Hughes i gysylltu â CSC i drefnu hyn.
<u>Park / Flowers Sub-Committee</u><br>Monthly Health & Safety checks of the Park to continue over the winter – Cllr June Owens will carry out the checks this month – Clerk to email all with the form. Thanks was extended to Cllr Rhian Jones for doing last month.
Cllr Owain Pugh has made some repairs to the activity frame. Some work still to be done. The work will be done in the next few months. Cllr Owain Pugh was thanked for his work by the Chair.
Quote for £800 received from Deian Rees for painting the equipment in the park – all in agreement. Deian can start the work on April 4th, the park will need to be closed for 1 week.
Ceredigion County Council Communication Team has contacted the Clerk to ask for photos of the town for their St.Davids day press release – Robert Garden Centre has provided a pot of daffodils and Dafydd Wyn Morgan was asked to take photos.
Grass cutting and flowers watering/feeding tender to be prepared by the Clerk.
</td>
<td>
Cyng / Cllr June Owens
Cyng / Cllr Owain Pugh
Clerc / Clerk
Cyng / Cllr Catherine Hughes
</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | *It was agreed to ask for 6 additional black flower pots for this year and for them to be located in other parts of the town. Cllr Catherine Hughes to contact CCC to arrange this.*<br><br>Is-bwyllgor Cynllun Lle<br>Mae y Cyng Catherine Hughes, y Cyng Rhydian Wilson a'r Clerc wedi cwrdd â Catrin Cond a Sarah Smith, Cyngor Sir Ceredigion o ran symud ymlaen gyda'r Cynllun Lle. Bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal cyn bo hir. Pawb yn gytun i'r is-bwyllgor gario ymlaen gyda'r gwaith.<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Evan Jones<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Ann Jones<br><br>*Place Plan Sub-Committee*<br>*Cllr Catherine Hughes, Cllr Rhydian Wilson and the Clerk met with Catrin Cond and Sarah Smith, Ceredigion County Council with regards to moving forward with the Place Plan. Another meeting will take place soon. All in agreement for the sub-committee members to carry on with the work.*<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Evan Jones<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Ann Jones | Cyng / *Cllr* Arwel Jones / Rhydian Wilson / Catherine Hughes<br><br>Clerc / *Clerk* |
| 11. | **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT**<br>Clerc wedi cwrdd â'r Gweithiwr Strydlun i drafod -<br>• Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Chapel Street, Pontrhydefendigaid Road<br>• Glanhau strydoedd eraill yn eu tro<br><br>Angen gofyn i CSC a all yr ysgubwr ffordd ymweld â'r dref i lanhau ochrau'r ffyrdd ar hyd a lled y dref.<br><br>Bydd y Cyng. Catherine Hughes yn cysylltu â'r adrannau a'r Swyddogion perthnasol yng Nghyngor Sir Ceredigion i ddarganfod eu cynlluniau ar gyfer paratoi ar gyfer yr Eisteddfod.<br><br>*Clerk has met with the Street Scene Worker to discuss the following –*<br>• *Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydefendigaid Road*<br>• *Other streets to be cleaned in rotation*<br><br>*Need to ask CCC if the Road Sweeper can visit the town to clean the roadsides all through the town.*<br><br>*Cllr Catherine Hughes is to contact the relevant departments and Officers in Ceredigion County Council to find out their plans in preparation for the Eisteddfod.* | Clerc / Clerk |
| 12. | **CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS**<br>Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.* | |
| 13. | **CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING PERSMISSION**<br>Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.* | |
| 14. | **CYNGOR SIR CEREDIGION / CEREDIGION COUNTY COUNCIL**<br>Gwybodaeth isod wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod.<br>*Below information was sent to Councillors prior to meeting.*<br>• 21.01.2022 – Tudalen we ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid Etholiadau Lleol 5 Mai 2022 / *Webpage for candiates and agents for local elections 5 May 2022*<br>  • Cyfarfod ar Nos Fercher 2 Mawrth 2022 am 6pm dros Zoom – Sesiwn Briffio | |

| | | |
|---|---|---|
| | • 24.01.2022 – Cau Ffrodd Dros Dro / *Temporary Road Closure: B4343 Tregaron –* 21/02/2022 8am-5pm<br><br>• 10.02.2022 – Etholiadau Lleol 2022 Local Elections – Newidiadau i Wardiau / *Change to Wards* | |
| 15. | **UN LLAIS CYMRU / *ONE VOICE WALES***<br>Gwybodaeth Un Llais Cymru wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod.<br>*One Voice Wales information received was sent to Councillors prior to meeting.* | |
| 16. | **PROSIECT CYLCH CARON PROJECT**<br>Prosiect yn symud yn ei flaen – mynd allan i dender cyn diwedd mis Mawrth 2022.<br>*Project moving forward – going out to tender before the end of March 2022.* | |
| 17. | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU**<br>Mae'r Eisteddfod yn mynd ymlaen yn 2022.<br>Bydd angen sefydlu pwyllgor gyda'r Cyngor Sir i drafod a threfnu pa welliannau y mae'n rhaid eu gwneud yn y dref. Hefyd, mae angen cynnal trafodaethau â busnesau lleol ynghylch yr Eisteddfod. Angen cysylltu â Gerwyn Jones (glanhau strydoedd/priffyrdd ayyb) a Arwyn Davies (Toieldau y Mart) Cyngor Sir Ceredigion i drefnu gwelliannau i'r dref mor gynteg a phosib – Cyng Catherine Hughes mewn cysyllt gyda nhw.<br><br>Pwysig i'r Cyngor Tref barhau i gydweithio gyda'r pwyllgor apêl lleol wrth baratoi i groesawu'r Eisteddfod.<br><br>Arwydd 'Hollywood' o Dregaron – angen gwneud ymchwil i gostau ac ati a beth yw'r opsiynau gwahanol o wneud hyn.<br><br>Cyfarfod nesaf Pwyllgor Apêl Leol Tregaron yw Mawrth 16eg am 7.30pm – Cynghorwyr i fynychu os yn bosib.<br><br>*The Eisteddfod is going ahead in 2022.*<br>*There will be a need to establish a committee with the County Council to discuss and arrange what improvements need to be done in the town. Also, discussions need to be held with local businesses regarding the Eisteddfod. Need to contact Gerwyn Jones (street / highway cleaning etc) and Arwyn Davies (Mart's Toilets) Ceredigion County Council to arrange town improvements as soon as possible - Cllr Catherine Hughes in contact.*<br><br>*Important for the Town Council to continue to work with the local appeal committee in preparation to welcome the Eisteddfod.*<br><br>*'Hollywood' sign of Tregaron – need to do research into costings etc and what the different options are of doing this.*<br><br>*Next meeting of the Tregaron Local Appeal Committee is March 16th at 7.30pm – Cllrs to attend if possible.* | Cyng / *Cllr* Catherine Hughes |
| 18. | **PROSIECT BWRDD DIGIDOL / DIGITAL BOARD PROJECT**<br>Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth i harddangos ar y bwrdd yn mynd yn ei flaen.<br>Cytunwyd bod yn rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir i'w harddangos ar y bwrdd fod yn ddwyieithog. Mae angen drafftio dogfennau fel prisiau hysbysebion busnes, telerau ac amodau ac ymwadiad - i'w trafod gan bwyllgor y bwrdd digidol.<br><br>*Work is being done on collecting information to be displayed on the board.*<br>*It was agreed that all information provided to be displayed on the board has to be bilingual. Documents such as business advert prices, terms and conditions and a disclaimer needs to be drafted - to be discussed by the digital board committee.* | Clerc / *Clerk*<br>Cyng / *Cllr* Catherine Hughes<br>Arwel Jones<br>Rhydian Wilson |
| 19. | **GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE**<br>19.1 –<br>Cymorth Ariannol / Financial support – | |

- Caron 360
- CFFI Ceredigion YFC

19.2 –
Llythyr oddi wrth Eluned Morgan AS, Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r llythyr ynghylch pryderon am y cynllun plannu coed a ffosffadau mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. Mae hi'n mynd i fynd â'r mater at y Gweinidog.

*Letter from Eluned Morgan MS, Welsh Government in response to the letter regarding concerns about the tree planting scheme and phosphates in regards to planning applications. She is going to take the matter to the Minister.*

19.3 –
Cyngor Cymuned Llanddewi Brefi – diolch am benthyg y sled a gofyn os tâl – pawb yn gytun dim tal y tro yma.

*Llanddewi Brefi Community Council – thank for the use of the Santa Sleigh and asking if there is a cost – all in agreement no fee this time.*

19.4 –
Daisy Sherwood – Cais Ymgynghoriad Creu Coetir Glastir Cwm Berwyn – yn gofyn am adborth. Derbyniwyd e-byst yn gwrthwynebu trwy'r Clerc oddi wrth drigolion a chymdogion y tir. Clerc i ymateb a rhoi adborth gyda'r sylwadau a ganlyn ac i gynnwys yr e-bost gwrthwynebiadau a dderbyniwyd –
'Mae Cyngor Tref Tregaron yn gwrthwynebu Cynllun Creu Coetir Glastir Cwm Berwyn gan ei fod ar dir amaethyddol da ac yn siomedig fod y tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plannu coed. Mae pryder hefyd y bydd hyn yn lleihau'r golygfeydd panoramig a golygfaol yn yr ardal hon. Mae'r Cynghorwyr yn siomedig i glywed nad ymgynghorwyd â chymdogion ynghylch y cynllun.'

Clerc / *Clerk*

*Daisy Sherwood – Cwm Berwyn Glastir Woodland Creation Consultation Request – asking for feedback. Objection emails have been received via the Clerk from residents and neighbours of the land. Clerk to respond and feedback with the following comments and to include the objections email received –*
*'Tregaron Town Council is opposed to the Cwm Berwyn Glastir Woodland Creation Scheme as it is on good agricultural land and is disappointed that the land is being used for tree planting. There is also a concern that this will diminish the panoramic and scenic views in this area. Councillors are disappointed to learn that neighbours have not been consulted about the scheme.'*

19.5 –
Cyngor Cymuned Llangeithio – hysbys am swydd y Clerc.
*Llangeitho Community Council – advert for the Clerc job.*

19.6 –
2 e-bost wedi eu derbyn gan drigolion Stryd y Capel yn ymwneud â thipio anghyfreithlon yn digwydd yn wythnosol y tu allan i Glennydd – Clerc yn eu cynghori i gysylltu â CHLIC, Cyngor Sir Ceredigion.

*2 emails received from residents in Chapel Street with regards to Fly tipping happening on a weekly basis outside Glennydd – Clerk advise them to contact CLIC, Ceredigion County Council.*

19.7 –
Newyddion Mynyddoedd Cambrian *Mountain News* – Ionawr/*January* 2022

| | | |
|---|---|---|
| | 19.8 –<br>Llythyr wrth Carwyn Davies – am Tir Comin, Blaencaron<br>Letter from Carwyn Davies – regarding Common land, Blaencaron<br><br>19.9 –<br>SyM Tregaron - dathliad Jiwbilî'r Frenhines - pawb yn gytûn i hysbysu SyM bod y Cyngor Tref yn gefnogol i unrhyw ddathliadau a drefnir ganddynt.<br><br>*WI Tregaron – Queen Jubliee celebration – all in agreement to inform the WI that the Town Council are supportive of any celebrations they organise.*<br><br>19.10 –<br>Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ysgol Feithrin Tregaron – Nos Lun 28ain Chwefror am 7pm – am rywun i fynychu'r cyfarfod i gael llun am y rhodd ariannol – Cadeirydd i fynychu.<br><br>*Tregaron Ysgol Feithrin AGM - Monday 28th February at 7pm – wants someone to attend the meeting to have a photo for the donation that was given - Chair to attend.*<br><br>19.11 –<br>Cerflun Henry Richard - Clerc wedi cysylltu â Kieran Ryder - mae yn mynd i wneud y gwaith yn ystod Pasg ar benwythnos sych - £350 am y gwaith.<br><br>*Henry Richard Statue - Clerk has contacted Kieran Ryder - he is going to do the work during Easter on a dry weekend - £350 for the work.*<br><br>19.12 –<br>*Llythyr oddi wrth Ian Tillotson, Clwb Cerdded Tregaron mewn perthynas â thanysgrifiad blynyddol Croeso i Gerddwyr. Cytunwyd yn y lle cyntaf i'r Rhwydwaith Busnes ei drafod i weld a oedd yn rhywbeth yr hoffent ei wneud. Cyng Rhydian Wilson i drafod gyda'r rhwydwaith a rhoi adborth i'r Cyngor Tref.*<br><br>*Letter received from Ian Tillotson, Tregaron Walking Club with regards to the Walkers are Welcome annual subscription. It was agreed in the first instance, for it be discussed by the Business Network to see if it was something they would like to take on. Cllr Rhydian Wilson to discuss with the network and feedback.* | *Clerc / Clerk*<br><br>Cyng / *Cllr* Rhydian Wilson |
| 20. | **UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**<br>20.1 –<br>Tref Wifi / Prosiect Tref Glyfar -<br>Yn dilyn ymarfer caffael a gwblhawyd gan Gyngor Sir Ceredigion mae Telemat wedi'u dewis fel y contractwr ar gyfer y prosiect 'Tref Wifi / Prosiect Tref Glyfar. Mi wnaeth y Cyng Rhydian Wilson, Cyng Arwel Jones a'r Clerc fynychu cyfarfod ar Chwefror 21ain gyda Kevin Harrington, Rheolwr Datblygu Busnes, Telemat i drafod y camau nesaf. Bydd 3 phwynt mynediad yn y dref – 2 gan LIC ac un wedi ei ariannu gan CSC. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3ydd Mawrth a bydd yn ymweliad safle gyda Kevin a'r peiriannydd i drafod lle fyddai orau ar gyfer gosod y pwyntiau mynediad. Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod mis Mawrth.<br><br>*Town Wifi / Smart Town Project –*<br>*Following a procurement exercise completed by Ceredigion County Council Telemat have been chosen as the contractor for the 'Town Wi-Fi/ SMART Town' project. Cllr Rhydian Wilson, Cllr Arwel Jones and the Clerk attended a meeting on 21st February with Kevin Harrington, Business Development Manager, Telemat to discuss the next steps. There will be 3 access points in the town – 2 from WG and one funded through CCC. The next meeting will be held on 3rd March and will be a site visit with Kevin and the engineer to locate where would be best for the access points to be installed. Update will be given in the March meeting.* | |

| | | |
|---|---|---|
| | 20.2 –<br>Cyng/*Cllr* June Owens –<br>Mae rhai trigolion wedi bod yn gofyn ble mae'r Cyngor Tref yn sefyll o ran Cynghorwyr etholedig yn cael eu dyfarnu'n euog o droseddau. Mae cyngor wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru ar y mater – yn dibynnu ar y drosedd, cyn belled nad yw'r drosedd yn golygu dedfryd, gall y Cynghorwyr barhau yn eu swydd.<br><br>*Residents have been asking where the Town Council stands with regards to elected Cllrs being convicted of offences. Advice received from One Voice Wales with regards to the matter – depending on the offence, as long as the offence doesn't carry a sentence, Cllrs can remain in post.*<br><br>20.3 –<br>Cyng/*Cllr* Arwel Jones –<br>Mae draeniau y tu allan i Minygors yn Heol yr Orsaf wedi'u rhwystro. Clerc i adrodd i CLIC, CSC.<br><br>*Drains outside Minygors in Station Road are blocked. Clerk to report to CLIC, CCC.*<br><br>20.4 –<br>Cyng/*Cllr* Catherine Hughes –<br>Mae llifogydd ar ffordd B434 Pontrhydfendigaid ger Fferm Sunnyhill, Tregaron wedi achosi problemau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'r Cyng Catherine Hughes mewn cysylltiad gyda CSC i geisio i ddatrys y broblem gan bod llifogydd yn digwydd yn aml yn ddiweddar.<br><br>*Flooding on the B434 Pontrhydfendigaid road by Sunnyhill Farm, Tregaron has caused problems in recent weeks. Cllr Catherine Hughes is in contact with CCC, trying to get them to resolve the issue as it's seems to be flooding often of late.* | *Clerc / Clerk* |
| 21. | Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal ddydd Iau 17eg Mawrth 2022 am 7.30pm.<br>*The next monthly meeting will be held on Thursday 17th March 2022 at 7.30pm.* | |
| | Terfynwyd y cyfarfod / *Meeting was closed* | |